

Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig 14 Chwefror 2019
Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

Prif Bwyntiau a Chamau Gweithredu

Teitl y Cyfarfod	Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (telecon)			Dyddiad	14.02.2019
Dyddiad y Cyfarfod	15	Amser Dechrau	10:45	Amser Cwblhau	2:30
Yn bresennol	Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd, Louise George (Llywodraeth Cymru), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru - Cynghorydd), Kate Griffiths (Cyfoeth Naturiol Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – Cynghorydd i'r Grŵp Llywio), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Becky Phillips (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur)				
Telecon	Eve Read (Dŵr Cymru), Greg Tomlinson (Ystad y Goron), Alice Collier (Ystad y Goron)				
Ymddiheuriadau	Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro)				

Rhif	Eitem yr Agenda
1	Croeso a Chyflwyniadau
2	Cynllun Gweithredu 2019-20 - canlyniadau yr ymarfer blaenoriaethu
3	Anghenion ac opsiynau cyllido
4	Y diweddaraf ar y prosiect O'r Mynydd i'r Môr
5	Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Grŵp Llywio
6	Unrhyw fater arall

Cyflwyniad

Mae Grŵp Llywio Rheoli yr Ardal Forol Warchoddedig (MPAMSG) yn darparu cydlyniant strategol er mwyn rheoli yr holl Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nyfroedd Cymru. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor, canllawiau ac yn cyd-lywio awdurdodau sy'n cyflawni camau rheoli o fewn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Llywio a hyrwyddo'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn effeithiol, gan godi proffil gwaith rheoli'r Ardaloedd ac ennyn cefnogaeth awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru.

Daw aelodau yr MPAMSG o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio eu trydydd cyfarfod ar ddeg ar 14 Hydref 2019 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Mae'r prif negeseuon a champau gweithredu y cyfarfod i'w cael yn y ddogfen hon. Mae gan aelodau'r MPAMSG gyfrifoldeb i sicrhau cysondeb o ran cynnwys y negeseuon y byddant yn eu rhannu â'u rhwydweithiau.

Os ydych am drafod unrhyw un o'r eitemau ar yr agenda yn fanylach cysylltwch ag arweinydd eich sector. Os ydych am gael manylion cyswllt eich arweinydd yn y sector, cysylltwch â Blwch Negeseuon E-bost y Gweinidog ar gyfer y Môr a Physgodfeydd: (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@llyw.cymru)

Prif Bwyntiau a Chamau Gweithredu

Eitem 2: Cynllun Gweithredu 2019-20 - canlyniadau yr ymarfer blaenoriaethu

Prif Bwyntiau	Camau
<p>Bu aelodau'r Grŵp Llywio yn trafod eu sgôr ar gyfer pob un o'r chwe cam newydd arfaethedig ar gyfer Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Yn amodol ar waith pellach ar y Prosiect Ysbwriel Cymunedol, Pori Morfeydd Heli a'r Prosiect Ansawdd Dŵr a'r camau posibl i darfu llai ar famaliaid ac adar morol, cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio ar y sgoriau cyffredinol a thrwy hynny drefn blaenoriaethu y camau newydd ar gyfer 2019-2020. Y chwe cam newydd yw:</p> <ul style="list-style-type: none">• Datblygu Cynllun Gweithredu i leiau y sgil-ddalfeydd damweiniol o adar môr yn nyfroedd y DU• Prosiect Ysbwriel Cymunedol• Cyflawni Cam 3 y Prosiect Gweithgareddau heb Drwydded• Llai o darfu ar famaliaid ac adar morol• Prosiect peilot ar bori morfeydd heli ac ansawdd dŵr• Effaith sbwriel morol ar nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig	

Eitem 3: Anghenion ac opsiynau cyllido

Prif Bwyntiau	Camau
<p>Bu aelodau y Grŵp Llywio yn nodi pa gamau newydd oedd eisoes â chyllid, a pha rai sydd angen cymorth ariannol. Cytunwyd i ystyried cyllid a'r rhestr derfynol o gamau i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu 2019-2020 yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.</p> <p>Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio y byddai'n well cynnal trafodaethau ar flaenoriaethu unwaith yr oedd y dyraniadau cyllidebol yn hysbys ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.</p>	<p>Llywodraeth Cymru i adolygu'r amserlen flynyddol ar gyfer creu Cynllun Gweithredu ac i ystyried prosesau cyllidebu blynyddol.</p>

Eitem 4: Y diweddaraf ar y Prosiect O'r Mynydd i'r Môr

Prif Bwyntiau	Camau
Cafodd aelodau'r Grŵp Llywio y newyddion diweddaraf ar y prosiect O'r Mynydd i'r Môr gan nodi'r cynnydd a wnaethpwyd o ran agwedd forol y prosiect.	

Eitem 5: Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Grŵp Llywio

Prif Bwyntiau	Camau
Awgrymodd Llywodraeth Cymru y dylid gohirio yr eitem hon i ganiatáu amser ar gyfer edrych ar sut y gallai'r Grŵp annog Gweithredu Morol Cymru a'r Grŵp Cyngori ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig i wneud mwy o gyfraniad. Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio i ohirio'r trafodaethau ar Gylch Gorchwyl y Grŵp tan y cyfarfod nesaf.	Llywodraeth Cymru i ddrafftio papur ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio yn amlinellu yr opsiynau i gryfhau'r cysylltiad â Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

Eitem 6: Unrhyw fater arall

Prif Bwyntiau	Camau
Dim busnes arall.	